OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 870 (Cy. 171)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Gorffennaf 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Awst 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 18(1) o Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018(**1**).

Yn unol ag adran 18(4) o Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Awst 2018.

**Diwygio Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989**

**2.** Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn adran 173(1)(b) yn lle "section 81(8)" rhodder "section 133(11)"; ac

(b) yn adran 173(7) hepgorer "9 or".

**Diwygio Deddf Tai 1996**

**3.** Yn adran 40 o Ddeddf Tai 1996(**3**) hepgorer is-adran (5).

**Diwygio Rheolau Cofrestru Tir 2003**

**4.** Mae Rheolau Cofrestru Tir 2003(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(**1**) 2018 dccc 4.
(**2**) 1989 p.42
(**3**) 1996 p.52
(**4**) O.S. 2003/1417

(a) yn rheol 95, hepgorer paragraff (2)(d);

(b) yn rheol 183A, hepgorer paragraff (1); ac

(c) yn Atodlen 4—

(i) yn ffurflen X—

(aa) yn y pennawd, hepgorer "81 or";

(bb) yn lle "section 81(8)" rhodder "section 133(11)";

(cc) hepgorer "section 81 of that Act or";

(ii) hepgorer ffurflen KK.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

18 Gorffennaf 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae rheoliadau 2 a 3 yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol er mwyn diweddaru croesgyfeiriadau at "gwarediadau esempt" o ganlyniad i newidiadau a wnaed gan y Ddeddf ac o ganlyniad i ddiddymu'r gofynion i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i weithgareddau penodol a wneir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan y Ddeddf.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheolau Cofrestru Tir 2003 (O.S. 2003/1417) o ganlyniad i ddiddymu'r gofynion i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i weithgareddau penodol a wneir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan y Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.